

Ein Dyfodol Digidol

“Trawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau’r claf trwy ffyrdd digidol o weithio”

Map Digidol i Ddangos y Ffordd at Iechyd yng
Ngogledd Cymru

2021-2024

(Sylwer: Rhan o’r Strategaeth yn unig yw hon gan ein bod yn ymwneud yn unig â’r hyn y mae modd ei newid)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Ein Gweledigaeth, Uchelgeisiau a'n Galluogwyr Digidol – Trosolwg	4
3. Uchelgais 1 - Profiadau Cleifion a Gofalwyr wedi'i Alluogi	5
Profiadau Cleifion a Gofalwyr	5
Sut y byddwn yn cyflwyno Profiadau Cleifion a Gofalwyr	6
Cleifion a Gofalwyr – Sut y gallwch gefnogi cyflwyno'r Strategaeth hon	7
4. Uchelgais 2 – Profiadau Staff wedi eu Cysylltu	7
Profiadau'r Staff	7
Sut y byddwn yn cyflwyno Profiadau'r Staff	9
Staff – Sut y gallwch gefnogi cyflwyno'r Strategaeth hon	9
5. Y 6 Galluogydd	10
Galluogydd 1 – Sylfeini Digidol Cryfach	10
Galluogydd 2 – Gwybodaeth er Gwell	12
Galluogydd 3 – Trefniadaeth Ddigidol – “Meddwl yn Ddigidol”	13
Galluogydd 4 – Partneriaethau Cryf	15
Galluogydd 5 – Cynhwysiant Digidol	16
Galluogydd 6 – Croesawu Arloesedd	17
6. Ein Heriau Allweddol	18
7. Ein Risgiau	19
8. Geirfa	19

1. Cyflwyniad

Mae ein holl Weledigaeth yn fater o **“drawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau’r claf trwy ffyrdd digidol o weithio”**. Mae hyn yn golygu rhoi profiadau’r cleifion, gofalwyr a staff wrth galon yr hyn a wnawn, ac i wneud hyn mae’n rhaid i ni gael y pethau sylfaenol yn iawn.

Mae’r strategaeth hon yn cefnogi cyflwyno ein blaenoriaethau strategol mewn Byw’n Iachach, Cadw’n Iach a’r Deilliannau Poblogaeth a Threfniadol, ac y mae adborth o’n hymwneud yn sail iddi.

Er i ni wneud rhai buddsoddiadau dros y 3 blynedd a aeth heibio, erys y ffaith ond yr ydym yn dal ar ei hôl hi o ran y lle’r ydym eisiau bod. Nid yw lefel bresennol ein cyllido wedi ein galluogi i gadw i fyny â chyflymder cynyddol y newid.

O’r herwydd, gwyddom fod ein staff yn teimlo rhwystredigaeth gyda’u profiadau digidol beunyddiol: sut y maent yn cyrchu data cleifion, mewngofnodi lluosog, systemau digyswllt, ynghyd â chyfarpar a meddalwedd cyfyngedig neu sydd wedi dyddio. Nod y strategaeth hon yw lleihau’r rhwystredigaeth a darparu ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

Mae gallu cyrchu’r wybodaeth iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn, trwy’r Cofnod Iechyd Digidol (CID) yn allweddol i helpu ein staff i gyflwyno gwasanaeth o’r safon uchaf. Mae’r strategaeth yn rhoi manylion ein cynlluniau er mwyn i hyn ddigwydd.

Mae ein cleifion yn haeddu’r profiadau gorau oll. Golyga hyn ddewis y ffordd y maent yn cyfathrebu a ni, a rhoi sicrwydd iddynt fod rhywun yn gwrando arnynt, y gallant dderbyn gofal arbenigol yn rhwydd ac yn gyflym, a bod eu gwybodaeth yn ddiogel. Mae’r profiadau allweddol hyn a’r modd y byddwn yn eu cyflwyno wedi eu cynnwys er mwyn sicrhau ein bod yn ateb anghenion ein cleifion. Bu’r ymwneud yn gadarnhaol a byddwn yn symud tuag at agwedd sy’n rhoi’r defnyddiwr yn y canol, boed y defnyddiwr yn glaf, gofalwr neu staff.

I dalu am y strategaeth hon, byddwn yn adolygu’r modd yr ydym yn cyllido’r digidol, yn rhoi blaenoriaeth i’r hyn yr ydym yn gyflwyno ac yn nodi ffynonellau eraill o gyllid. Mae cryn dipyn o drawsnewid yn digwydd yna ŵr yn y gwasanaeth, a rhaid i fwy ddigwydd yn y dyfodol: ar hyn o bryd, nid oes gennym y gallu na’r capasiti i gyflwyno hyn i gyd.

Diogelwch seibr yw un o’r risgiau mwyaf a wynebwn, ac felly un o’n blaenoriaethau allweddol. Mae gennym ddyletswydd i gadw ein cleifion, gofalwyr, staff a’n sefydliad yn ddiogel fel y gallwn barhau i gyflwyno ein gwasanaethau os bydd ein systemau yn cael eu peryglu, er mor annhebygol yw hyn.

Cafodd ein hagwedd o “Digidol yn Gyntaf - gadael neb ar ôl” ei datblygu i adlewyrchu pwysigrwydd cynhwysiant a’r lefel uchel o bryder a fynegwyd am hyn yn yr ymwneud. Gwyddom fod 10% o’n poblogaeth wedi eu hallgau yn ddigidol, ac y mae’r ffigwr hwn hyd yn oed yn uwch yn rhai o’n grwpiau o gleifion. Mae’n bwysig i ni ddal i fod â systemau a phrosesau effeithiol i’r sawl na fedrant gyrchu gwasanaethau yn ddigidol, a chydweithio ar yr un pryd i’w cefnogi i gyrchu gwasanaethau digidol petaent yn dewis.

Mae’r Gymraeg a’i diwylliant hefyd yn bwysig, a byddwn yn gweithio ar y cyd i fodloni Safonau’r Gymraeg.

Ni allwn gyflwyno’r Strategaeth hon ar ein pennau ein hunain, un o’r galluogwyr allweddol ar gyfer y strategaeth hon yw gweithio mewn partneriaeth. Y meysydd allweddol i weithio mewn partneriaeth yw ein Timau Adnoddau Cymunedol ac Iechyd Meddwl, cynhwysiant digidol, sgiliau digidol a datblygu ein gweithlu at y dyfodol.


Gwyddom nad yw trawsnewid digidol yn hawdd. Mae'n fwy na gosod systemau ar waith: mae hefyd yn golygu newid ein diwylliant a rhoi'r weledigaeth am newid a chefnogi staff a pob defnyddiwr yn ystod y newid.

Ein gweledigaeth yn y tymor hwy yw gweithio tuag at ddatblygu Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ledled gogledd Cymru, fydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cydweithio i gyflwyno Gofal wedi ei Alluogi trwy Dechnoleg, cefnogi Gofal yn Nes at y Cartref, a'n agenda atal.

Mae'r byd digidol yn newid yn sydyn, felly bydd angen i ni adolygu'r Strategaeth hon bob blwyddyn, yn enwedig yn unol â'r Strategaeth Glinigol a'r Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru.

2. Ein Gweledigaeth, Uchelgeisiau a'n Galluogwyr Digidol - Trosolwg


Bydd cyflwyno ein Gweledigaeth, Uchelgeisiau a'n Galluogwyr yn arwain at newidiadau cadarnhaol i brofiadau cleifion, gofalwyr a staff.



3. Uchelgais 1 – Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi'u Galluogi

Profiadau Cleifion a Gofalwyr

Rydym eisiau i'n Cleifion a Gofalwyr gael y profiadau canlynol:



- Rwy'n cael gwybod am fy ngofal
- Mae gennyf ddewis o ymgynghori wyneb-yn-wyneb neu dros fideo
- Gallaf drefnu rhai apwyntiadau ar-lein a chael f'atgoffa mewn ffordd sy'n addas i mi
- Gallaf dderbyn fy llythyrau yn ddigidol a gallaf eu cyrchu yn haws i gyfeirio atynt yn y dyfodol
- Rwy'n cael gohebiaeth yn fy newis iaith/dull/fformat



- Gallaf ddweud wrthoch am fy ngofal, fy mhrofiad a'm hiechyd fel fy mod yn derbyn y gofal gorau i mi a'i fod yn gwella gwasanaethau
- Does dim rhaid i mi ail-adrodd fy manylion wrth wahanol unigolion neu sefydliadau sy'n rhoi gofal i mi
- Mae fy hawliau yn cael eu hystyried



- Mae un ffynhonnell fanwl gywir o wybodaeth sy'n cael ei gadw amdanaf a bod gwybodaeth bwysig ar gael i bawb sy'n fy nhrin/fy nghefnogi
- Pan gaf fy nghyfeirio, byddaf yn cael gofal yn haws ac yn gynt
- Mae'r gwasanaethau y byddaf yn eu derbyn wedi eu cynllunio o gwmpas anghenion y claf
- Mae'n haws i mi symud rhwng gwasanaethau
- Gallaf dderbyn peth o'm gofal yn nes at adref
- Rwy'n ddiogel


Gallaf reoli fy ngofal

Rwy'n ffyddiog fod data amdanaf yn ddiogel

- Gallaf gyrchu fy ngwybodaeth yn haws fel fy mod yn gwybod mwy am fy ngofal a'r dewisiadau sydd ar gael i mi
- Medraf gyfoesi rhannau o'm cofnod iechyd fy hun yn y dyfodol fel bod yr unigolyn sy'n darparu fy ngofal yn gwybod mwy amdanaf
- Caf fy nghyfeirio at yr adnoddau a'r apiau hunangymorth addas
- Rwy'n gwybod lle a sut i gyrchu gwybodaeth a gwasanaethau yn ddigidol

- Pan fyddaf yn darparu data amdanaf fy hun, rwy'n gwybod y caiff ei ddefnyddio yn unig i roi gofal i mi a gwella fy ngofal iechyd, ac y caiff ei storio'n ddiogel a'i gadw'n gyfrinachol bob amser

Sut y byddwn yn cyflwyno Profiadau'r Cleifion a Gofalwyr



Cleifion a Gofalwyr – Sut y gallwch gefnogi cyflwyno'r Strategaeth hon


I'r Strategaeth hon lwyddo, mae angen i ni i gyd fynd ati i gymryd rhan. O'r ymwneud, roedd ein cleifion a rhanddeiliaid yn ehangach yn meddwl mai'r canlynol allai roi'r canlyniadau:

- ✓ **Byddwch yn bositif am dechnoleg newydd** sy'n cael ei ddarparu, byddwch yn barod i drïo'ch llaw arnynt, dysgu sut maent yn gweithio ac adrodd yn ôl i ni i ddweud lle gellir gwella, trwy amrywiol ffyrdd o ymwneud.
- ✓ **Rhowch groeso i'r dechnoleg ar eich aelwydydd**, gofynnwch am help pan fydd angen, er mwyn i chi gael cefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau digidol
- ✓ **Rhannwch brofiadau da** gyda'r teulu, ffrindiau a rhwydweithiau i helpu i hyrwydd defnyddio ein hatebion digidol.
- ✓ **Cymerwch gyfrifoldeb am eich iechyd eich hun** trwy ddefnyddio ffynonellau dibynadwy eraill o wybodaeth pan fydd angen, gan roi gwybodaeth gywir i ni amdanoch chi, a thrwy gadw'r wybodaeth honno'n gyfoes.
- ✓ **Defnyddiwch eich gwasanaethau yn gyfrifol**, gan ddefnyddio'r gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn ac am y rhesymau iawn.
- ✓ **Byddwch yn gefnogol ac amyneddgar** gan fod ffyrdd newydd o weithiau yn mynd o chwith ambell waith

4. Uchelgais 2 –Staff sydd wedi Cysylltu

Profiadau'r Staff

Rydym eisïau i'n Staff gael y profiadau a ganlyn:



Gallaf wneud penderfyniadau gwell, mae gen i'r wybodaeth iawn ar bwynt y gofal

- Rwy'n gwybod sut i fynd at yr holl wybodaeth y bydd arna'i ei angen
- Rwy'n adnabod fy nghleifion yn well gan fy mod wedi gwrandao ar y wybodaeth a roesant yn ystod ac ar ôl y gofal a ddarperais

Gallaf ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu digidol sy'n addas i anghenion fy nghleifion

- Gallaf ddefnyddio ymgynghoriadau rhithiol lle maent yn fwy addas i 'nghleifion
- Gallaf redeg sesiynau grŵp a gweithio ar y cyd â phartneriaid gofal iechyd eraill lle bydd o les i 'nghleifion

Mae gen i'r sgiliau digidol, yr hyder a'r cyfarpar iawn i wneud fy ngwaith

- Rwy'n cael fy nghefnogi i ddatblygu fy sgiliau digidol a gwn lle i fynd i gael cefnogaeth
- Mae gen i'r cyfarpar iawn i wneud fy ngwaith

Mae gen i ran weithredol mewn gwella fy ngwasanaeth


- Gallaf fynd yn rhwydd at y data a'r wybodaeth mae arnaf ei angen i adolygu perfformiad a safonau
- Rwyf yn rhan o'r cyfan ac yn gallu dylanwadu ar welliannau yn fy ngwasanaeth a'm sefydliad
- Gallaf weld lle gall atebion digidol fy nghefnogi i roi gwell gwasanaeth i 'nghleifion

Gallaf weithio'n effeithiol fel rhan o dîm mewnol neu gyda phartneriaid allweddol

- Gallaf rannau a derbyn gwybodaeth a chyfryngau yn ddiogel gyda phartneriaid allweddol
- Gallaf ddefnyddio atebion digidol sy'n fy helpu i gydweithio

Gallaf weithio'n fwy effeithlon trwy ffyrdd newydd o weithio

- Gallaf arddweud fy llythyrau yn ddigidol
- Gallaf wneud ceisiadau electronig am brofion a'u llofnodi yn electronig
- Gallaf wneud a derbyn e-gyfeiriadau
- Gallaf fewngofnodi unwaith a chyrchu'r holl systemau allweddol sydd arnaf eu hangen
- Os bydd fy rôl yn caniatáu, gallaf weithio o unrhyw leoliad a chyfarfod fy nghydweithwyr yn rhithiol, sy'n golygu fy mod yn treulio llai o amser yn teithio
- Mae gennyf hyder yn y systemau rwy'n eu defnyddio ac y mae'r wybodaeth a ddelir ynddynt yn gyfoes
- Gallaf reoli meddyginiaethau a'u rhagnodi yn electronig
- Rwy'n cyfrannu at well cyfathrebu rhwng gofal Sylfaenol ac Eilaidd
- Rwy'n gwybod lle mae fy nghleifion, fel y gallaf sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni'n gyflym fel eu bod yn treulio llai o amser o gartref



Staff – Sut y gallwch gefnogi cyflwyno'r Strategaeth hon


I'r Strategaeth hon lwyddo, mae angen i ni i gyd fod yn rhan o'r peth:

- ✓ **Byddwch yn bositif am dechnoleg newydd** y gallwch ei gyrchu, bod yn barod i drïo eich llaw arnynt, dysgu sut y maent yn gweithio ac adrodd yn ôl yn ôl i ni i ddweud lle gellir gwella, trwy amrywiol ffyrdd o ymwneud.
- ✓ **Hyrwyddwch ffyrdd digidol o weithio i gydweithwyr** ac ystyriwch helpu eraill sy'n llai hyderus, efallai trwy ddod yn Hyrwyddwr Digidol i'ch gwasanaeth.
- ✓ **Byddwch yn rhagweithiol i ddatblygu eich sgiliau digidol** i gadw'n gyfoes â'r dechnoleg, y dyfeisiadau a'r systemau diweddaraf
- ✓ **Defnyddiwch ddata** i wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau
- ✓ **Hyrwyddwch newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno** trwy gael sgysiau gonest gyda chleifion a bod yn ddigon hyderus i helpu cleifion lle mae angen
- ✓ **Mynd ati i ymwneud a'r sefydliad yn ehangach** pan gyfyd y cyfle, er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael dweud eich dweud ar bopeth digidol
- ✓ **Cefnogi nodi a gwireddu'r manteision** y gellir eu cael trwy ddefnyddio atebion digidol.

5. Y 6 Galluogydd Allweddol

I'n galluogi i gyflwyno ein Gweledigaeth, Uchelgeisiau a'n profiadau, byddwn yn canolbwyntio ar y galluogwyr isod.

(Bydd cynlluniau cyflwyno ar gael hefyd pan fyddwn yn cyhoeddi'r Strategaeth hon)



Galluogydd 1 - Sylfeini Digidol Cryfach

“Mae ein seilwaith TGCh, systemau, dyfeisiadau a'r gefnogaeth a ddarperir yn addas ar gyfer heddiw a'r dyfodol; mae gennym ddiogelwch a llywodraethiant cryf i'n gwybodaeth ac yr ydym yn cael y gorau gan ein cyflenwyr”


Rhaid i ni **“Fuddsoddi yn y sylfeini a'u cael yn iawn”**. Dyma'r neges allweddol o'n hymwneud â'n staff. Mae gosod sylfeini digidol cryf yn hanfodol i ni er mwyn bod yn sefydliad digidol fel y mynnwn fod, i'n galluogi i gyflwyno'r profiadau i gleifion a staff, a chyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen yn ddiogel ac yn gynt.

Mae'r sylfeini hyn yn cynnwys ein rhwydweithiau, dyfeisiadau, caledwedd, systemau, storio a ffonau.

Seibr-ddiogelwch yw un o'r risgiau mwyaf a wynebwn; daeth ymosodiadau dyddiol yn gyffredin, ac yr ydym yn gweithio gyda swm enfawr o'r data personol mwyaf sensitif y mae rheidrwydd arnom i'w gadw'n ddiogel. Rydym o ddifrif ynghylch y risg uchel hon, ac few wnawn bopeth yn ein gallu i atal ymosodiadau, os bydd ymosodiad yn digwydd, byddwn yn ddigon gwydn i leihau'r niwed ac adfer yn ôl y galw.

Mae gennym lawer iawn o gyflenwyr a rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn rheoli'r hyn sydd gennym yn dda, yn prynu'r union yr hyn sydd arnom ei angen, am y pris/gwerth gorau, a'n bod yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda'n cyflenwyr.

Sut y byddwn yn cyflwyno Galluogydd 1 – Sylfeini Digidol Cryfach



“Rydym yn defnyddio data a gwybodaeth i wneud gwell penderfyniadau, rhagweld y galw a gwella gwasanaethau”

Mae cael y sylfeini'n iawn yn golygu bod yn rhaid i'n data fod yn gywir, hygrych, bod modd ei ddefnyddio a'i fod yn ddigon cadarn. Mae swm y data a'r wybodaeth sydd gennym yn tyfu'n gyflym. Rhaid i ni fanteisio arno i'r eithaf er mwyn cyflwyno gwasanaethau o safon yn awr ac yn y dyfodol.

Mae ein Dangosfyrddau Gwybodaeth Busnes (GB) yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r hyn a wnawn, gan alluogi gwneud penderfyniadau yn syth ac yn y tymor byr a chanol. Mae angen i ni ddatblygu ein gallu i fodelu, a fydd yn rhoi i ni ffordd o ddeall effaith tymor-hir unrhyw newid a wnawn, a rhagweld y cyflenwad a'r galw am ein gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'n Dangosfyrddau GB ar draws y sefydliad, a symud tuag at ffordd o helpu ein hunain trwy roi i'r gwasanaethau y dangosfyrddau a'r arfau i holi. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar feysydd pwysig eraill o wybodaeth.


Byddwn yn adolygu ein hadroddiadau a'n dangosfyrddau presennol, gan sicrhau bod cysondeb o ran eu golwg a'u teimlad.

Mae Awtomeiddio Proses Robotaidd (APR) yn erfyn profedig, a llawer math o ddefnydd iddo ar draws y GIG. Byddwn yn defnyddio'r ethnigrwydd a'r dewis o iaith o'r rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 fel cynllun peilot i'r APR, gan fewnforio'r data i'n System Weinyddu Cleifion.

Mewn Codio Clinigol byddai SNOMED- CT yn rhoi i ni iaith glinigol strwythuredig sy'n cael ei rhannu ac y gall cyfrifiaduron ei darllen. Mae wedi ei ffurfio o dermau clinigol sy'n cynnwys gweithdrefnau, symptomau, mesuriadau clinigol, diagnosis a meddyginiaeth. Bydd SNOMED yn cefnogi rhannu data rhwng systemau, ac yn benodol ein Cofnod Iechyd Clinigol newydd. Byddwn yn dechrau awtomeiddio Codio Clinigol gan ei fod yn caniatáu i wybodaeth mewn amser gwirioneddol am ein cleifion fod ar gael, gan arbed amser ac adnoddau.

Bydd ein gwaith fel rhan o'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR), yn cyfrannu at sefydlu storfa ddata genedlaethol fydd yn defnyddio methodolegau Cwmwl a 'Data Mawr'. Byddwn yn sefydlu fframwaith negeseuo amser-gwirioneddol sy'n golygu y bydd data'n cael ei fwydo'n amlach ac yn fwy amserol er mwyn adrodd.

Bydd yr NDR yn hwyluso mynediad at setiau data allweddol fel bod modd adrodd a rhoi mewnwelediad lleol er mwyn gwella'r gofal a gaiff y cleifion. Bydd uwch-ddadansoddeg yn bosib oherwydd y bydd modd cyrchu offer data modern.



Galluogydd 3 – Trefniadaeth Ddigidol “Meddwl yn Ddigidol”

“Meddwl yn Ddigidol” Rydym yn mynd ati i ddatblygu ac aeddfedu ein diwylliant digidol trwy arweiniad ymrwymedig ac atebol, bod yn integredig trwy ein prosesau cynllunio busnes gyda’r buddsoddiad addas i wella. Cyflwyno buddiannau i gleifion a staff: ariannol, heb fod yn ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol.”


Er mwyn cyflwyno newid trawsnewidiol, rhaid i ni fod yn Sefydliad Digidol. Mae hyn yn golygu mwy na meddu ar systemau a phrosesau; mae hefyd yn fater o bobl a ffydd o feddwl a gweithredu. Rydym eisiau i’n staff, cleifion a gofaluwr i “Feddwl yn Ddigidol.” Bydd meddwl yn ddigidol ar draws y sefydliad yn newid mawr i ni, ond dyna mae’n rhaid i ni wneud er mwyn gofalu y gallwn gyflwyno gofal rhagorol yn awr ac yn y dyfodol.

Mae llawer o brosiectau trawsnewid yn methu oherwydd heriau i ddiwylliant y sefydliad, felly yr ydym yn blaenoriaethu ac yn buddsoddi amser mewn gwella ein parodrwydd digidol er mwyn gwneud yn sicr y byddwn yn fwy llwyddiannus wrth gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen.

Rydym wedi cychwyn ar ein taith i ddod yn sefydliad digidol; rydym wedi gweld fod angen gwella ein parodrwydd digidol a chryfhau ein llywodraethiant, safonau gwasanaeth, cyllid, cynllunio a'r modd yr ydym yn cyflwyno ein prosiectau. Yr unig ffordd i wneud hyn yw trwy barhau i fynd ati i ddatblygu ein staff a dysgu a thyfu trwy ymwneud ystyrlon.

O'r ymwneud, gwyddom nad yw rhan fwyaf ein staff yn gyfarwydd â'n hamcanion digidol cyfredol; mae'n rhaid i'n staff wybod beth yr ydym yn anelu ato.

Sut y byddwn yn cyflwyno Galluogydd 3 – Trefniadaeth Ddigidol “Meddwl yn Ddigidol”



Galluogydd 4 –Partneriaethau Cryf

“Gallwn rannu gwybodaeth berthnasol yn ddiwnïad gyda’n partneriaid allweddol a byddwn yn gweithio ar y cyd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda’n cleifion, staff, partneriaid allweddol a Chyflenwyr”

Un o’r meysydd pryder allweddol gan y cyhoedd a chleifion o’r ymwneud yw diogelwch y wybodaeth maent yn roi i ni. Er mwyn rhoi’r gwasanaethau gorau i’n cleifion sy’n derbyn gofal gan nifer o sefydliadau, rydym eisiau gallu rhannu a derbyn gwybodaeth yn ddiwnïad gyda’n partneriaid pan fydd angen gwneud hynny, fel bod gan bawb y wybodaeth iawn ac nad oes rhaid i’r unigolyn sy’n derbyn y gofal ail-adrodd ei hanes.

I ateb anghenion ein cleifion a’n staff mae’n rhaid i ni weithio gyda’n gilydd yn fwy cynhyrchiol (Gwneud pethau “gyda” yn hytrach nag “i”). Yr ydym yn ymdrin â hyn yn fwy manwl yn sut y byddwn yn cyflwyno’r profiadau i gleifion a staff a’n hagwedd yn defnyddio Dylunio sy’n Canoli ar y Defnyddiwr.

Yr agwedd hon o weithio’n fwy cyd-gynhyrchiol yw’r hyn yr ydym am ddefnyddio gyda’n partneriaid allweddol i fanteisio i’r eithaf ar weithio ynghyd ar gyfer ein cleifion a staff. Byddwn yn gwreiddio hyn yn ein ffyrdd o weithio.


Mae ein Timau Adnoddau Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn gweithio gydag amrywiaeth o’n partneriaid allweddol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a’r trydydd sector. Rydym wedi nodi fod angen i ni ddarparu model gwahanol o gefnogaeth ddigidol i’n holl wasanaethau. Mae angen i ni weithio’n agosach gyda’r ddau wasanaeth hwn i wneud y gorau o’n hadnoddau a gweithio gyda’n gilydd i ddatblygu eu Cynlluniau Digidol tymor-hwy eu hunain.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac rydym wedi ymrwymo i gael Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar y Cyd ledled Gogledd Cymru, er mwyn rhoi gwell profiadau i’n cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a’n staff.

Byddwn yn parhau i weithio gyda’n partneriaid ar gyfleoedd digidol fydd o les i’n cleifion a’n staff.

Un o’r meysydd allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yw sgiliau digidol ein cleifion a’n staff. Ymdrinnir yn fanylach a hyn yn Galluogydd 2 – Trefniadaeth Ddigidol a Galluogydd 4 – Cynhwysiant Digidol.

Sut y byddwn yn cyflwyno Galluogydd 4 – Partneriaethau Cryf



“Rydym yn llawn ymwybodol o effaith unrhyw ffyrdd newydd o weithio ar ein cleifion, gofalmwr and staff fel y gallwn roi cynlluniau ar waith i sicrhau cynhwysiant.”

Yr oedd pryderon am eithrio digidol yn thema gyffredin yn ein hymwneud i gyd. Yr oedd y cyhoedd/cleifion yn meddwl mai eithrio digidol oedd un o'r 3 phrif reswm pan atebwyd y cwestiwn “beth yn eich barn chi allai atal y profiadau uchod rhag digwydd, neu eu rhwystro?”

Nid yw 10% o boblogaeth Cymru ar-lein, ac y mae 27% o'r rhai sydd yn defnyddio'r rhyngwrdd heb feddu ar o leiaf un o'r sgiliau digidol sylfaenol.

Trin gwybodaeth a chynnwys
Cyfathrebu
Cynnal trafodion
Datrys problemau
Bod yn ddiogel a chyfreithlon ar-lein


Mae pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl a chyflyrau iechyd tymor-hir sy'n eu cyfyngu yn llai tebygol o fod ar-lein; y rhain hefyd yw'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod angen cefnogaeth gyda gofal iechyd a chymdeithasol. Mae mwy o wybodaeth am Gynhwysiant Digidol a Sgiliau Sylfaenol yma: [Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Sylfaenol](#)

Dywedodd 87% o'r bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn gyffredinol dda eu bod yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth iawn pan fyddant yn sâl, o gymharu â 68% o'r rhai gwael eu hiechyd, sy'n awgrymu bod pobl wael eu hiechyd yn llai tebygol o gyrchu gwybodaeth i gefnogi eu dull o fyw. Dywedodd canrannau tebyg o bobl eu bod yn medru dod o hyd i'r wybodaeth iawn i'w helpu i fyw yn iach

Ein hagwedd ni yw “Digidol yn Gyntaf - gadael neb ar ôl.” Byddwn yn parhau i gefnogi pobl i gyrchu ein gwasanaethau mewn ffyrdd heb fod yn ddigidol, e.e., trwy apwyntiadau wyneb-yn-wyneb. Os na wnawn hyn, fe allai effeithio ar anghydraddoldebau iechyd sy'n bod eisoes.

Mae hwn yn faes pwysig i ni barhau i weithio mewn partneriaeth arno fel rhan o'n Menter Cymunedau Digidol, i wreiddio Cynhwysiant Cymdeithasol a ffurfio perthynas gryfach â Chymunedau Digidol Cymru i ennill mwy o arbenigedd a phrofiad yn y maes hwn.

Cyflwyno Galluogydd 5 – Cynhwysiant Digidol



Galluogydd 6 – Croesawu Arloesedd

“Rydym yn cadw’n gyfoes â syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio, a bod yn rhan o ymchwil a datblygu arloesol a buddsoddi ynddo. Yr ydym yn dysgu o’r arferion gorau ac yn barod i’w mabwysiadu”

Rydym eisiau bod un cam o flaen y dechnoleg bresennol a newydd sydd ar gael, a sut y gallwn ei ddefnyddio.

Mae ymchwil yn elfen bwysig o arloesi yn y byd digidol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran cyflwyno amgylcheddau clinigol digidol y gall cleifion a staff elwa arnynt.


Dyma faes lle gallwn weithio mewn partnership gyda’n Tîm Ymchwil a Datblygu ein hunain, a’r Hwb Rhanbarthol Ymchwil, Arloesedd a Gwella (sy’n cael ei gyflwyno gan Gydweithrediad Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru) yn ogystal â chyrff addysg uwch a cholegau yn lleol a chenedlaethol.

I sicrhau bein bod yn cyflawni hyn, rydym yn ymrwymo i gytuno ar gyfran wedi’i neilltuo o amser ein staff Gwybodeg i wneud hyn bob blwyddyn.

Mae arnom angen adolygu sut rydym yn rheoli Ymchwil a Datblygiad mewn Gwybodeg fel bod gan wasanaethau gyswllt uniongyrchol.

Byddwn hefyd yn parhau i arwain ar y Fenter Arloesedd Busnesau Bychain (MABB) sy’n gweithio gyda chyrff y sector cyhoeddus ledled Cymru i ddatblygu atebion newydd lle nad oes gan y farchnad rai. Menter ar y cyd ac agwedd gydweithredol yw hon lle’r ydym yn gweld anghenion heb eu hateb gyda’n cydweithwyr mewn ieched, ac yn gwahodd diwydiant ac academia i weithio’n agos gyda ni er mwyn datblygu ateb ynghyd sydd yn cwrdd â’n hanghenion. Rydym hefyd eisiau mynd â hyn ymhellach trwy arwain ar MABB ledled y DU i weithio gyda pob un o’r gwledydd er mwyn cael effaith ehangach ar ieched poblogaeth y DU.

Sut y byddwn yn cyflwyno Galluogydd 6 Croesawu Arloesedd



6. Ein Heriau Allweddol

Mae llawer her a allai gael effaith ar ein trawsnewid digidol, ac yr ydym wedi ystyried y rhain wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, a byddwn yn eu hadolygu hefyd fel rhan o'r modd yr ydym yn rheoli ein risgiau. Mae'r 4 her isod yn rhoi crynodeb cyffredinol:

	Ein Poblogaeth		Cyflymder Newid a Mwy o Alw
• Mwy o Alw am Wasanaethau: Bydd poblogaeth y gogledd yn cynyddu wrth i fwy o fabanod gael eu geni ac i bobl fyw yn hwy. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio angen mwy o ofal, a heneiddio hefyd y mae'r gweithlu, felly mae perygl o golli gwybodaeth a phrofiad. • Cymhlethdod Cynyddol: Mae gan nifer cynyddol o bobl fwy nag un angen iechyd, felly aiff anghenion iechyd yn fwy cymhleth • Cynhwysiant Digidol: Mae 10% o bobl yng Nghymru wedi eu heithrio yn ddigidol, ac y maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, heb fawr o addysg ac yn wael eu hiechyd. Nid yw pobl sydd wedi eu heithrio yn gymdeithasol yn gallu cyrchu amrywiaeth o wybodaeth am iechyd a gofal, a gall hyn gael effaith ar nifer y sawl a gyfeirir.		• Cyflymder Newid: Mae newid ac arloesedd technolegol yn symud yn gyflym. • Mwy o Alw am Wasanaethau Digidol: Mae'r galw am wasanaethau digidol a ffyrdd mwy hyblyg o weithio yn cynyddu o du staff a chleifion. • Datblygu Sgiliau Digidol: Efallai na fydd sgiliau digidol staff a chleifion yn wastad ddal i fyny â chyflymder newid. • Llawer o Hen Systemau heb eu Cysylltu: Mae gennym lawer system a phroses heb eu cysylltu ledled BIBC. • Dibyniaeth ar Gofnodion Papur: Hyn yn wir ar draws BIPBC felly ceir anhawster wrth i gleifion symud rhwng safleoedd • Lefel Isel o Aeddfedrwydd Digidol: Mae gan ein diwylliant lefelau gwahanol o barodrwydd digidol; rhaid i hyn aeddfedu i gyrraedd y lefel angenrheidiol o newid digidol. • Cyflwyno Cenedlaethol: Mae gwahanol sbardunau cenedlaethol nad ydynt yn wastad yn asio gyda'r hyn y mynnwn gyflawni, sydd weithiau yn arafu ein cyflwyno.	
	Lleihau Cyllid a Chyllido Tymor-Byr		Gweithio Ynghyd
• Arbedion: Dros y 3 blynedd diwethaf, bu'n rhaid i ni wneud arbedion, ac y mae mwy ar y gweill • Costau Uwch Technoleg: oherwydd mwy o alw a chymhlethdod • Cyllid Tymor Byr: Mwy o grantiau tymor-byr a chyllidebau'n crebachu. • Diffyg Cyllido cynaliadwy: Mwy o grantiau tymor-byr gyda disgwyliad yn lleol i gynnal a gwella dros y tymor hir, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol.		• Gwahanol Systemau ac agenda: Rydym yn gweithio ynghyd gyda phartneriaid i roi'r hyn sydd orau i'n cleifion a'n staff gan y gall hyn esgor ar well canlyniadau. Gall gweithio ynghyd gymryd mwy o amser a bod yn fwy anodd oherwydd y defnyddir systemau gwahanol. • Unwaith i Gymru: Rydym yn gweithio gyda Byrddau Iechyd eraill wedi'i hwyluso gan GIDC i ddatblygu atebion i Gymru: nid yw'r atebion hyn yn wastad yn cwrdd â'n hanghenion ni, ac nid ydynt o hyd yn amserol.	

7. Ein Risgiau

I gyflwyno'r Strategaeth hon yn llwyddiannus, rydym wedi nodi'r risgiau canlynol y bydd gofyn i ni eu rheoli. Fe fyddwn yn eu rheoli trwy ein Cofrestri Risg a thrwy adolygu, monitro ac adrodd yn rheolaidd.

Nodwyd y risgiau hyn trwy'r cyflwyno, yr heriau a'r ymwneud cyfredol:

1. Blaenoriaethau sy'n cystadlu a diffyg buddsoddi cynaliadwy mewn digidol
2. Efallai na fydd seilwaith a phrosiectau cenedlaethol yn cyflwyno'r hyn sydd angen a/neu heb fod ar y cyflymder sydd ei angen
3. Methu cadw i fyny a chyflymder newid digidol i ateb disgwyliadau ein cleifion, gofalmwr a staff
4. Gwybodaeth heb fod yn ddiogel
5. Dim digon o staff, a dim digon o allu yn eu mys i gyflwyno'r Strategaeth
6. Diwylliant y sefydliad a chyllunio gwasanaethau ddim yn newid
7. Diffyg ymwneud o du'r staff

1. Geirfa

Term	Disgrifiad
Trawsnewid	Y broses o newid yn llwyr er mwyn gwella.
Deilliant	Canlyniad unrhyw weithred neu newidiadau
Diogelwch Seibr	Y dechnoleg, prosesau ac arferion sy'n amddiffyn ein systemau, rhaglenni, rhwydweithiau a'n dyfeisiadau rhag mynediad heb awdurdod. Mae'n gwarchod ein gwybodaeth.
Rhwydweithiau	Ffordd o gysylltu cyfrifiaduron a dyfeisiadau eraill fel y gallant rannu gwybodaeth.
Cynllun Parhad Busnes	Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y modd yr ydym yn delio â phroblemau sy'n cael effaith ar ein gwasanaethau er mwyn tarfu cyn lleied ag sydd modd ar y gwasanaethau yr ydym yn eu cyflwyno.
Caffael Seiliedig ar Werthoedd	Y modd yr ydym yn prynu gwasanaethau neu systemau fel ein bod yn ystyried y manteision ariannol a'r deilliannau y byddwn yn eu cyflwyno. Felly byddwn yn ystyried mwy na dim ond y pris.
Rheoli Contractau	Dyma'r ffordd yr ydym yn rheoli contractau o'r cyfnod y byddwn yn rhoi contractau allan i'r amser pan ddaw contract i ben. Einioes y contract.
Diwylliant	Y syniadau, arferion ac ymddygiad cymdeithasol sefydliad a'r bobl ynddo
Aeddfedrwydd Digidol	Pa mor dda yr ydym yn defnyddio technoleg i gael system iechyd a gofal sydd am ddim ar bwynt y gofal.
Llywodraethiant	Y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwn i arwain, rheoli a chyfarwyddo ein gwaith digidol
Cynaliadwy	Rhywbeth y gellir ei gynnal yn awr ac yn y dyfodol
Budd	Deilliant neu rywbeth a gyflwynir sy'n cael ei ystyried yn bwysig er mwyn cyflwyno gwelliant

Cynllunio Gweithlu	Cynllunio yr hyn sydd arnom ei angen o'n gweithlu yn y dyfodol, h.y., niferoedd, sgiliau etc
Cyd-gynhyrchu	Agwedd seiliedig ar asedau tuag at wasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi pobl sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau i rannu'r grym a'r cyfrifoldeb, ac i weithio gyda'i gilydd mewn perthynas gyfartal, gilyddol a gofalgar. (Gwneud gyda phobl yn lle iddynt)
Dylunio sy'n Canoli ar y Defnyddiwr	Proses ddylunio lle'r ydym yn deall anghenion pob defnyddiwr system neu broses, a chreu gwasanaethau i gwrdd â'r anghenion hynny. Dealltwriaeth o anghenion, tasgau ac amgylchedd y defnyddwyr. Defnyddwyr yn rhan o'r dylunio a'r datblygiad.
Cytundeb Rhannu Gwybodaeth	Cytundeb sy'n gosod allan, dan y gyfraith, y defnydd o wybodaeth bersonol sy'n cael ei rannu rhwng gwahanol sefydliadau i roi gwell gwasanaethau.
Cynhwysiant Digidol	Bod â'r symbyliad, sgiliau a'r mynediad at dechnoleg ddigidol a'r rhyngrwyd
Gallu	Meddu ar y gallu i gyflwyno rhywbeth , e.e., sgiliau
Capasiti	Tyr hyn y gallwn ei gyflawni
Partneriaethau	Gweithio gyda sefydliadau eraill